## Y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael : Ffyrdd o Weithio

Cytunodd y Pwyllgor i ddiwygio'r cylch gorchwyl er mwyn cynnwys contractau o dan y trothwyau caffael a bennir gan Gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl diwygiedig a ganlyn:

- Pa mor effeithiol yw'r rheoliadau caffael presennol o ran y modd y maent yn cael eu gweithredu yng Nghymru, a hynny o safbwynt cyflenwyr/contractwyr ac o safbwynt awdurdodau prynu?
- Sut y byddai'r newidiadau arfaethedig i Gyfarwyddebau perthnasol yr UE yn effeithio ar y broses caffael cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y materion a ganlyn:
    - ymgysylltiad busnesau bach a chanolig (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) yn y broses caffael cyhoeddus;
    - defnyddio caffael cyhoeddus i ddiwallu amcanion polisi eraill (fel polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol);
    - cymhlethdodau a hyblygrwydd rheolau caffael presennol;
    - gwerth am arian i'r awdurdod prynu?